# Teithio a Thwristiaeth yn Nyffryn Dyfrdwy


## Cynllun Gweithgareddau

### Amcanion Dysgu

- Darganfod sut mae pobl yn y gorffennol wedi gweld a dehongli Dyffryn Dyfrdwy.
- Deall beth oedd yn denu pobl i Ddyffryn Dyfrdwy a'i nodweddion arbennig, gan gynnwys Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte.
- Darganfod sut oedd pobl yn teithio i ac o fewn Dyffryn Dyfrdwy a'r newidiadau i gludiant dros amser.
- Deall effaith twristiaeth ar yr ardal, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- Datblygu sgiliau allweddol, gan gynnwys creadigrwydd, adlewyrchu ar waith celf, meddwl yn feirniadol, dehongli a gwerthuso hanesyddol.

### Adnoddau

- Gêm PowerPoint Datgelu Dyffryn Dyfrdwy
- Ffilmiau: Merched Llangollen
- Artistiaid Dyffryn Dyfrdwy: Nodiadau Canllaw i Athrawon, paentiadau o Ddyffryn Dyfrdwy o'r 18fed a'r 19eg Ganrif, taflen adlewyrchu ar gelf
- Ysgrifennu Teithio: Nodiadau Canllaw i Athrawon, ffynonellau ar gyfer gwahanol oesau
- Trafodaeth Twristiaeth: Nodiadau Canllaw i Athrawon, ffeil ffeithiau twristiaeth, cardiau rôl



### Gweithgareddau

1. Defnyddiwch y Gêm PowerPoint Datgelu'r Darluniadwy fel dosbarth cyfan, er mwyn darganfod beth oedd pobl yn y gorffennol yn ei feddwl am ardaloedd allweddol o fewn Dyffryn Dyfrdwy.
2. Gwyliwch ffilmiau Merched Llangollen a gadewch iddynt egluro beth oedd tirlun Dyffryn Dyfrdwy yn ei olygu iddyn nhw a dysgwch am y Darluniadwy trwy eu llygaid nhw.
3. Ymchwiliwch i waith celf trwy'r oesoedd, wedi'i ysbrydoli gan harddwch Dyffryn Dyfrdwy gan ddefnyddio'r daflen adlewyrchu ar waith celf. Gan gymryd ysbrydoliaeth o'r delweddau hyn, crëwch eich gwaith celf eich hunain, arddangoswch y gwaith a gwerthuswch waith eraill.
4. Cymerwch rôl y teithiwr hanesyddol, ac wrth gymryd ysbrydoliaeth o ddyfyniadau, paentiadau a mapiau o'ch cyfnod dewisol, datblygwch ddarn creadigol ysgrifenedig.
5. Dewch yn arbenigwr twristiaeth a chynlluniwch eich canolfan ymwelwyr eich hun ar gyfer Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn Nyffryn Dyfrdwy. Cyflwynwch eich syniadau i'r dosbarth a trafodwch effeithiau cadarnhaol a negyddol twristiaeth yn yr ardal.

### Awgrymiadau

Ymwelwch â Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte i gael syniadau ar gyfer y drafodaeth twristiaeth a rhoi ysbrydoliaeth ar gyfer y gweithgareddau gwaith celf ac ysgrifennu.

### Crynodeb

Mae tirlun Dyffryn Dyfrdwy wedi denu ymwelwyr ac wedi ysbrydoli artistiaid ac awduron am dros 200 o flynyddoedd. Mae'n parhau i wneud hynny heddiw. Tyfodd diwydiant ar ôl adeiladu'r gamlas, tra roedd y tirlun hardd yn parhau i ddenu twristiaid. Mae'n bwysig ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol maent wedi ei gael ar Ddyffryn Dyfrdwy dros amser.

### Dolenni Cwricwlwm CA2

| Lloegr: | Cymru: |
|---|---|
| · Hanes<br>· Daearyddiaeth<br>· Saesneg<br>· Celf a Dylunio | · Dyniaethau<br>· Llythrennedd a Chyfathrebu<br>· Celfyddydau Mynegiannol |

### Gwefannau defnyddiol / adnoddau ychwanegol

- Ffilm: 'From Dawn 'til Dusk' – Celebrating 10 years of World Heritage on the Llangollen canal'
- Gwefan Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Gwefan Sublime Wales